CAMAU I'W CYMRYD YN YSTOD PANDEMIG COVID-19

Blwyddyn Academaidd 2021-22

Cymeradwywyd gan y Cofrestrydd Academaidd 8 Ebrill 2022 ac yn weithredol tan ddiwedd Blwyddyn Academaidd 2022

Newidiadau i Derfynau Amser Asesiadau (bydd hyn yn parhau fel dull gweithredu newydd o 9 Ebrill 2022 hyd at ddiwedd Blwyddyn Academaidd 2022)

1. Yn ystod Pandemig y Coronafeirws, gall cyfadrannau wneud eu penderfyniadau eu hunain ar gyfer Estyniadau Carfan Leol ar derfynau amser asesiadau. Rhaid i'r rhain gael eu cymeradwyo gan Bennaeth yr Ysgol neu gyfwerth (neu eu henwebai).
2. Wrth benderfynu ar Estyniad Carfan Leol, rhaid i gyfadrannau ystyried effaith terfynau amser diwygiedig er mwyn caniatáu i gyflwyniadau ag amgylchiadau esgusodol gael eu prosesu cyn byrddau asesu, yn unol â'r dyddiadau a gynlluniwyd. Hynny yw, y dyddiad cau, ynghyd ag 20 diwrnod gwaith, ynghyd ag amser marcio a phrosesu cyn mynd â marciau i'r Bwrdd.
3. Mae cyfadrannau'n gyfrifol am gyfleu'r dyddiad ymestyn newydd yn glir i'w myfyrwyr yn ogystal â rhoi gwybod i'w tîm Ardal Gynghori ar y Campws:

treforestadvice@southwales.ac.uk
cardiffadvice@southwales.ac.uk
glyntaffadvice@southwales.ac.uk
newportadvice@southwales.ac.uk

Rhaid cyfleu'r penderfyniad Estyniad Carfan Leol i Bwynt Cyswllt enwebedig y gyfadran a'i gofnodi ar lefel cyfadran yn unol â'r Polisi Asesu ar gyfer Dysgu.